# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Orffennaf 2022

1. **Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng L A James; Cyng I Ellis, Cyng D Jones-Morris; Cyng J Lewis; Cyng D W Jones, a'r Cyng A Joyce
   Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau** Cyng J Pierce, Cyng B Jones , Cyng E Jones, Cyng M Baines, Cyng C W Owen Cyng Dafydd Meurig

   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd

3. Datgan buddiant Esbonwyd y drefn i ddatgan buddiant sydd belllach yn haws wrth ein bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb a ffurflenni ar gael gan y Clerc

4. Derbyn Cofnodion 14eg o Orffennaf
   Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng D Jones Morris ag eilwyd gan y Cyng L A James
5. Materion yn codi
   Cadarnhawyd yn dilyn cyfarfod a Chwmni Gamlins fod llythyr bellach wedi ei anfon at ddeilydd ty oedd wedi cysylltu a sustem carffosiaeth i'r tanc septig yng Nglasinfryn yn ei rubyddio y bydd Cyngor Penit yn digomisiynnu y tanc dechrau 2023 ag iddo wneud trefniadau priodol erbyn Ionawr
   Cyfathrebiad o Gwynedd yn cadarnhau na fydd y Ganolfan bresennol yn cael ei dymchwel hyd nes bydd Prydles y Ganolfan Newydd wedi ei arwyddo
6. Materion ariannol
   a. Mantolen ariannol 'Roedd y fantolen wedi ei rhanu gyda'r cofnodion yn dangos £47,848..57 yn y Cyfrif Cyfredol a £35,046.39 yn y cyfrif cadw/arbedion Cytunwyd i drosglwyddo y £10K arbedion i'r cyfrif cadw a byddai dros £10K arall yn mynd o'r cyfrif cyfredol i dalu am y gwaith ar garffosiaeth Glasinfryn
   b. Archwylio Allannol - Ymholiad wedi dod yn ystod Mehefin ynglyn a datganiad 2019-20 a'r Clerc eisioes wedi ymateb
   c. Cofnodion cyfarfod IBC 29/06/2022 (wedi eu atodi ond heb eu cadarnhau)
      Mantolen bellach yn dangos trosglwyddiad i'r Cyfrif Cadw a taliad i A T & A E Lewis am eu gwaith yn Glasinfryn
7. Cynllunio
   Dim cais wedi gyflwyno yn yr ardal ers ein cyfarfod dwaetha

8 Materion y Clerc
   a. Llawlyfr Manylion Cyswllt wedi ei atodi ond oes angen copi caled?
      Cytunwyd i ddosbarthu'r llawlyfr yn electronig yn unig
      Nodwyd fod camgymeriad fel cyfeiriar e-bost i'r Cyng Dafydd Meurig
      **Clerc i gywiro**
   b. Septic Tanc Diweddariad a talu
      Y gwaith wedi ei gwblhau a'r taliad bellach wedi ei wneud
   c. Cais ar lafar eto wedi ei dderbyn gan y Clerc i rentu Capel y Fynwent
      Trafodwyd a cytunwyd i beidio rhentu ond yn hytrach ystyried addasu ei du mewn i fod yn adeilad aml-bwrpas yn ogystal a bod yn addas i gynal gwasanaethau angladdol

9. Materion y Cynghorwyr

Cyng M Baines Anfonodd ddrafft o Bolisi Iaith ar gyfer ei fabwysiadu i 2022-23

Cyng L A James Trafod yn angen i ystyried pa drefn rheoli sydd ei angen yn Ganolfan newydd o gofio fod y mwyafrif o aelodau Pwyllgor Rheoli y Ganolfan bresennol hefyd yn Gynghorwyr yn y Cyngor yma.
Angen dod i gytundeb a threfnu cyfarfod rhwng y Cyngor a Pwyllgor Rheoli

Cyng D Jones-Morris Yn awyddus i ddarganfod perchnogaeth yr hen cae peldroed ar gyrrion stad Redrow allai fedru cael ei ystyied yn ardal Rhandiroedd
Clerc i gysylltu a Gwynedd a hefyd holi am cae chwarae Ffordd Cynan

Cyng I Ellis Yn holi am statws y llwybr sy'n arwain o Stad Redrow i Ysbyty Gwynedd gan fod rhwystrau wedi eu gosod arno am gyfnod. Cadarnhawyd nad yw'n lwybr swyddogol

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30